# Cynnwys


Cynnwys
Rhaglen 2
4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf 5
5 - Adolygu Cyfansoddiad y Cyngor 10
6 - Gwe Ddarlledu 13
7 - Gwefannau i Gynghorau Tref a Chymuned 15
8 - Ymgysylltu efo Aelodau 17
9 - Hygyrchedd Pencadlys y Cyngor 19
Atodiad A 21

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democracy Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

**DEMOCRATIC SERVICE COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.00 a.m. DYDD MAWRTH, 18 MAWRTH, 2014**

**10.00 a.m. TUESDAY, 18 MARCH, 2014**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES**

**CAERNARFON**

***Noder y man cyfarfod os gwelwch yn dda/Please note the venue***

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**BETHAN ADAMS**

**(01286) 679020**

BethanAdams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed 10.3.14

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**
**DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE**

**AELODAETH / MEMBERSHIP (15)**

**Plaid Cymru (7)**

Y Cynghorwyr / Councillors

Selwyn Griffiths
Linda Ann Wyn Jones
Michael Sol Owen
Charles Wyn Jones
Dilwyn Morgan
Gareth Thomas
Mandy Williams-Davies

**Annibynnol / Independent (4)**

Y Cynghorwyr / Councillors

Lesley Day
Jean Forsyth
Tom Ellis
Anne Lloyd-Jones

**Llais Gwynedd (3)**

Anwen Davies
Gweno Glyn
Jason Humphreys

**Llafur / Labour (1)**

Y Cynghorydd / Councillor Sion Wyn Jones

**Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members**
Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council
Y Cynghorwyr / Councillors Huw Edwards a / and Dewi Owen

## RHAGLEN

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. **MATERION BRYS**

   Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. **COFNODION**

   Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr, 2013 fel rhai cywir (copi yma – papur **melyn**)

5. **ADOLYGU CYFANSODDIAD Y CYNGOR**

   Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro, (copi yma – papur **glas**)

6. **GWE DDARLLEDU**

   Ystyried adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, (copi yma – papur **pinc**)

7. **GWEFANNAU I GYNGHORAU TREF A CHYMUNED**

   Ystyried adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, (copi yma – papur **hufen**)

8. **YMGYSYLLTU EFO AELODAU**

   Ystyried adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, (copi yma – papur **lelog**)

9. **HYGYRCHEDD PENCADLYS Y CYNGOR**

   Ystyried adroddiad yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol, (copi yma – papur **gwyrdd**)

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, 11.12.13

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Lesley Day (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Thomas G. Ellis, Jean Forsyth, Evan Selwyn Griffiths, Charles W. Jones, Linda Ann Wyn Jones, Michael Sol Owen, Gareth Thomas.

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Ioan Thomas, (Aelod Cabinet Gofal Cwsmer)

**Swyddogion:** Geraint George, (Pennaeth Strategol a Gwella), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol) ac Ioan Hughes (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Annwen Davies, Jason Humphreys, Dilwyn Lloyd, Dilwyn Morgan, Mandy Williams-Davies.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Mewn perthynas ag eitem 8 ar y rhaglen, (Gwefannau i Gynghorau Tref a Chymuned), nododd yr aelodau canlynol eu bod yn aelodau o gynghorau tref/cymuned:
Y Cynghorwyr: Lesley Day, Thomas G. Ellis, Jean Forsyth, Evan Selwyn Griffiths, Anne Lloyd Jones, Michael Sol Owen, Gareth Thomas ac Ioan Ceredig Thomas.

Cadarnhawyd nad oedd angen iddynt ymdrin â hyn fel ‘buddiant personol’.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod diwethaf o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Medi, 2013, fel rhai cywir.

## 3. ADNODDAU I GEFNOGI GWAITH AELODAU

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd – Strategol a Gwella yn diweddaru’r Pwyllgor ar yr adnoddau sydd mewn lle ac i ystyried y prif faterion sydd angen sylw ar gyfer cynllunio adnoddau i’r dyfodol.

(b) Cyfeiriwyd at y sefyllfa ariannol heriol sy’n rhaid ei hwynebu dros y blynyddoedd nesaf. Yn gyffredinol, ‘roedd y Pennaeth o’r farn bod y Gwasanaeth, hyd yma, wedi llwyddo i gwrdd â gofynion Mesur Llywodraeth Leol 2011. Fodd bynnag, nodwyd bod angen ystyriaeth barhaus ynglŷn â bod yn fwy effeithlon a chyflawni gyda llai o adnoddau.

(c) O fewn y ‘Gorchymyn Personau Dynodedig’ bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi dyletswydd newydd ar Awdurdodau Lleol i graffu darparwyr gwasanaethau eraill

yn eu hardal. Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd na chafwyd canllawiau pendant hyd yma.

(ch) O ran darparu gwybodaeth i aelodau, gwnaed cais ar i wybodaeth amserol ynglŷn â chyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio gael ei gynnwys yn ‘Rhaeadr’ gan nad oedd hyn yn digwydd bob tro oherwydd amseru’r dosbarthiad.

(d) Mynegwyd barn gan aelod y dylid canolbwyntio ar wasanaethau rheng flaen yn hytrach na chraffu darparwyr gwasanaethau eraill os na fyddai Llywodraeth Cymru yn darparu cefnogaeth ariannol.

Ychwanegodd y dylai’r mater o hygyrchedd adeiladau’r Cyngor fod wedi cael ystyriaeth flynyddoedd lawer yn ôl

(dd) Mewn ymateb i ymholiad am gostau gwaith nodwyd bod niferoedd staff craidd yn yr atodiad ac mai £286,000 oedd costau cyflogau staff gyda chyfanswm cyflogau a threuliau aelodau yn £1.4 miliwn. Yn ogystal, nodwyd yr angen i geisio cael cydbwysedd rhwng sicrhau effeithlonrwydd a’r pwysau ar sicrhau arbedion. Galwyd ar yr aelodau i gysylltu â’r swyddogion i gyflwyno unrhyw awgrymiadau lle gellir lleihau cefnogaeth i aelodau ac felly cost.

(e) Mewn perthynas â’r prif weithgareddau a’r gefnogaeth ar gyfer aelodau nodwyd y byddai dull o gael ‘linc’ effeithiol pan anfonir gwybodaeth am adroddiadau drwy e-bost. Yn ogystal nododd aelod fod gwerth neilltuol yn yr hyfforddiant a ddarperir ar gyfer aelodau, megis seminarau ym maes cynllunio.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 4. PROTOCOL CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ynghyd â drafft cychwynnol o bolisi cyfryngau cymdeithasol ar gyfer cynghorwyr.

(b) O fewn y ddogfen bolisi cynigiwyd arweiniad i gynghorwyr ar y defnydd o’r cyfryngau cymdeithasol. Yn dilyn cyfarfod pellach o’r Grŵp Tasg a sefydlwyd, bwriedir darparu ail ddrafft ac ymgynghori’n drylwyr gyda holl aelodau’r Cyngor drwy Rhaeadr.

(c) ‘Roedd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi derbyn bod beirniadu syniadau a barn yn rhan o drafodaeth ddemocrataidd. Fodd bynnag, nodwyd yn y protocol drafft cychwynnol bod ‘Safon Gwynedd’ yn datgan yn glir na ddylid bod yn sarhaus na’n ddilornus hyd yn oed yn y trafodaethau ‘gwleidyddol’ yma.
Ategwyd hyn gan aelodau’r Pwyllgor hwn a phwysleisiwyd y dylid glynu at y ‘parch’, a ystyrir i fod yn sylfaen hanfodol i waith y Cyngor.

(ch) Gwahoddwyd yr aelodau i gyflwyno sylwadau. Cytunwyd bod y protocol drafft yn cynnig man cychwyn da y gellir ymgynghori arno a gwnaed y prif bwyntiau canlynol:-

- Dylid nodi bod y Protocol ar gyfer Gwynedd gyfan,

- Dylai aelodau fod yn ymwybodol na ddylent ddweud dim trwy gyfrwng cymdeithasol na fyddent yn fodlon ei ddweud mewn llythyr neu ar lafar;
- O fabwysiadu'r protocol, dylid paratoi hyfforddiant i aelodau er mwyn iddynt fedru osgoi maglau wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol;
- Mae cyfrifoldeb clir ar y Cyngor i annog pobl i gymryd rhan weithredol mewn democratiaeth leol; mae camymddwyn ar gyfryngau cymdeithasol yn milwrio yn erbyn hynny;
- Mae angen meddwl yn galed ar beth yw'r "gosb" o beidio â chydymffurfio â'r protocol a methu â mynychu hyfforddiant yn ei gylch;
- Bod aelodau yn gynghorwyr gydol yr amser ac y dylent fod yn ymwybodol o safonau ymddygiad hyd yn oed wrth sefydlu a gweithredu safleoedd yn eu henwau eu hunain.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan gyfleu'r sylwadau a wnaed ar y protocol drafft cychwynnol i sylw'r Grŵp Tasg.**

## 5. GWE DDARLLEDU

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

(b) Esboniwyd bod grant fyddai'n ddigonol am gyfnod o tua dwy flynedd wedi ei dderbyn a bod gwaith rhagarweiniol wedi amlygu:-

- yr angen am gynllunio manwl ymlaen llaw, sydd, yn allweddol, yn caniatáu digon o amser i dreialu system cyn iddo fynd yn fyw;
- pwysigrwydd lleihau cymaint â phosib ar y gwaith sydd ynghlwm â 'rhedeg' y system pan fo cyfarfod ar y gweill;
- yr angen i gynyddu ymwybyddiaeth aelodau o sensitifrwydd systemau o'r fath.

(c) Nodwyd yr angen i ymdrin â chyfieithu ar y pryd oherwydd bod rhai cyfarfodydd lle nad oes angen darparu gwasanaeth cyfieithu ar gyfer yr aelodau. Ystyrir y dylid asesu'r sefyllfa parthed ffrwd ddi-gymraeg y system unwaith y bydd y drefn yn weithredol.

(ch) Mewn ymateb i ymholiadau gan aelodau nodwyd :-

- Mai cynllun peilot gan Brifysgol Aberystwyth oedd y camerâu a ddefnyddiwyd yn Siambr Dafydd Orwig am gyfnod byr beth amser yn ôl ac nad ydynt bellach yn weithredol;
- Bod camerâu a'r offer sain wedi ei osod gan y Cyngor ac mai'r unig gost fyddai gosod y cyfan ar y we;
- Na fyddai recordiad o unrhyw gyfarfod yn cael ei olygu mewn unrhyw fodd ac nad yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd ychwaith o ran recordio sain pan mae cyfarfodydd yn cael ei recordio;
- Byddai angen blaenoriaethu rhai cyfarfodydd i'w gwe-ddarlledu ar sail y diddordeb tebygol yn y materion fyddai gerbron;
- Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i'r trafferthion a geir gydag atsain yn Siambr Hywel Dda;
- Nad oes bwriad i roi terfyn ar y drefn o gynnal cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio yn Nwyfor a Meirionnydd yn ogystal â Chaernarfon;

- Byddai cyfryngau cymdeithasol a gwefan y Cyngor yn ddulliau o roi gwybodaeth ynglŷn â'r hyn sy'n mynd i gael ei ddarlledu.
- Byddai cyfarfodydd yn cael eu darlledu'n fyw, ond byddai archif ar gael fel y gallai'r cyhoedd droi ato;
- Fod gwaith yn cael ei wneud er lleihau costau gweinyddol a gellid adolygu'r sefyllfa pan ddaw'r cytundeb agoriadol gyda chwmni darlledu i ben;
- Nad oes gobaith cynnal trafodaethau gyda'r Cynulliad ynglŷn â chynyddu swm y grant a ryddhawyd;
- Byddai'r system cardiau adnabod sydd ar gael yn Siambr Dafydd Orwig o werth;
- Byddai'r drefn yn sicrhau gwell cyswllt hefo'r cyhoedd;
- Bod profiad cynghorau eraill yn dangos bod cyfarfodydd yn rhedeg yn esmwythach, gyda'r trafodaethau'n fwy cryno ers i system gwe ddarlledu gael ei sefydlu;
- Gyda'r drefn, byddai'r camera yn anelu at yr un fyddai'n siarad ar y pryd.
- Bod angen gwneud trefniadau ar gyfer treialu'r system.

**PENDERFYNWYD parhau i gefnogi'r bwriad i gyflwyno'r drefn o we ddarlledu ar yr amod bod y gyllideb yn caniatáu, gan ofyn am adroddiad yn ôl i'r cyfarfod nesaf ar raglen waith manwl ar gyfer ei gyflwyno.**

## 6. GWEFANNAU I GYNGHORAU TREF A CHYMUNED

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn amlinellu ymateb Cynghorau Tref a Chymuned i dderbyn grant o hyd at £500 i ddatblygu gwefan.

(b) Gydag opsiynau o sefydlu gwefan unigol neu wefan ar y cyd dan ystyriaeth, gwelwyd bod 10 yn datgan nad oedd diddordeb ganddynt ac ni chafwyd ymateb gan 9.

(c) Nodwyd bod newid wedi bod mewn perthynas â'r ansicrwydd ynglŷn â rhyddhau grant i gynghorau sydd wedi sefydlu gwefannau eu hunain. Er mwyn sicrhau fod pob cyngor yn ymwybodol o'r sefyllfa ddiweddaraf, awgrymwyd y gellid cysylltu unwaith eto â'r 19 cyngor sydd wedi datgan nad oes diddordeb ganddynt yn y cynnig neu heb ymateb o gwbl gan roi cyfle pellach iddynt wneud cais am grant.

**PENDERFYNWYD:**
**a) bod yr Adran Economi yn cysylltu unwaith yn rhagor gyda'r 19 cyngor sydd wedi datgan nad oes diddordeb ganddynt yn y cynnig neu heb ymateb o gwbl gan roi un cyfle pellach iddynt wneud cais am grant.**

**b) parhau i gefnogi'r gwaith o hwyluso datblygiad sefydlu gwefannau i Gynghorau Tref a Chymuned, gan dderbyn diweddariad ar y niferoedd sydd wedi ymgeisio am grant yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn ar 18 Mawrth, 2014.**

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL AELODAU ETHOLEDIG

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

(b) Nodwyd nad oedd pwysau'n cael ei roi ar aelodau i ddarparu adroddiadau blynyddol. Fodd bynnag, fel anogaeth a chymorth i aelodau i ddarparu'r adroddiadau, awgrymwyd y gellid darparu templed safonol fel man cychwyn ar gyfer y gwaith.

(c) Nodwyd bod 8 adroddiad wedi eu cyflwyno'r llynedd ac y gallai'r rhain fod o fudd. Ychwanegwyd bod sylwadau'n cael eu gwneud ynddynt, mewn modd parchus, ynglŷn â swyddogion.

(ch) Nododd aelod ei bod yn rhwystredig ar adegau i gofnodi'r wybodaeth ynglŷn â'r cyfarfodydd neu hyfforddiant a fynychwyd ganddynt ac y byddai'n fanteisiol pe byddai gwybodaeth o'r fath gael ei ddarparu ar eu cyfer.

(d) Er mwyn osgoi unrhyw awgrym o roi pwysau ar aelodau, awgrymodd aelod arall y dylid gofyn ymlaen llaw a oedd aelod yn ystyried darparu adroddiad gyda'r templed yn cael ei anfon iddynt yn ôl y galw.

(dd) O ran yr ymateb a roddwyd i'r adroddiadau, nodwyd bod mai 119 oedd cyfanswm yr ymatebion ar y wefan a bod y rhain yn amrywio o 9 i 50 ar gyfer yr adroddiadau unigol.

**PENDERFYNWYD:-**
**a) derbyn y bwriad o lunio templed yn cynnwys data am nifer y cyfarfodydd o bwyllgorau a fynychwyd a nifer yr hyfforddiant a fynychwyd ar gyfer pob cynghorydd yn unigol fel ffordd o gefnogi aelodau i lunio adroddiadau blynyddol yn 2013/14**

**b) bod cais yn cael ei gwneud i aelodau nodi os ydynt yn bwriadu cwblhau adroddiad, ac yna bod y templed yn cael ei gynnig i'r holl aelodau fel y gallant ystyried a ydynt am ddarparu adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.50am

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |
| DYDDIAD | 18 MAWRTH 2014 |
| PWNC | ADOLYGU CYFANSODDIAD Y CYNGOR |
| AWDUR | DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO |
| PWRPAS | Cymryd barn y Pwyllgor am newidiadau i’r Cyfansoddiad |

**Cyflwyniad**

1. Wrth adrodd i'r Cyngor llawn ar yr 2[il] o Fai, 2013 ar ddiwygiadau i'r Cyfansoddiad, eglurwyd fod gwaith ar y gweill dan arweiniad y Gymdeithas sy'n cynrychioli Swyddogion Monitro yng Nghymru, gyda chefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru, i lunio Cyfansoddiad safonol ar gyfer cynghorau unedol Cymru.

2. Yr ysgogiad ar gyfer y gwaith hwn oedd y ffaith bod pob Cyngor yng Nghymru bellach gyda threfn weithrediaeth (Arweinydd a Chabinet), a bod gwahaniaethau sylweddol yn amlygu eu hunain rhwng y gofynion cyfreithiol yng Nghymru o'u cymharu â rhai Lloegr yn sgil deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru.

3. Mae'r Cyfansoddiad safonol bellach yn barod ac mae'n amserol ystyried ei fabwysiadu. Mae'r Cyfansoddiad yn parhau i ganiatáu amrywiadau lleol o gyngor i gyngor, ond y gobaith yw y bydd yn rhoi gwell cysondeb ar ddehongliadau o'r Cyfansoddiad ar draws Cymru ac y bydd ffurf y ddogfen yn haws i'w deall.

4. Gan y Pwyllgor Archwilio mae'r swyddogaeth o adolygu ac asesu trefniadau'r Awdurdod ar gyfer llywodraethu corfforaethol a gwneud argymhellion ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny. Ystyrir bod Cyfansoddiad y Cyngor a'i gynnwys yn rhan annatod o drefniadau'r Cyngor ar gyfer llywodraethu corfforaethol da, ac mai'r Pwyllgor Archwilio felly oedd pwyllgor priodol i roi ystyriaeth i'r ddogfen gyfansoddiadol. Y Cyngor Llawn sydd a'r hawl i fabwysiadu y Cyfansoddiad.

5. Sefydlodd y Pwyllgor Archwilio weithgor o saith aelod i ymgymryd â’r dasg ac mae’r Gweithgor wedi cyfarfod deirgwaith, gyda dau gyfarfod arall wedi eu rhaglennu. Mabwysiadodd y Gweithgor ddull gweithredu oedd yn golygu eu bod yn rhoi sylw manwl i wahanol adrannau o’r Cyfansoddiad ymhob cyfarfod, yn dilyn casglu barn ac ymgynghori hefo budd-ddeiliaid perthnasol (e.e. gwahanol bwyllgorau, yr Arweinydd ayb.)

6. Ble bynnag y bo'n bosibl, mae'r Gweithgor wedi cadw at drefniadau llywodraethu presennol y Cyngor ac ychydig o newidiadau o sylwedd fydd yn cael eu hargymell er bod ffurf y Cyfansoddiad yn dra gwahanol i'r un presennol. Lle bo newidiadau sydd yn sylweddol wahanol i'r trefniadau presennol, bydd angen hysbysu yr aelodau o hynny cyn cyfarfod y Cyngor ar y 1af o Fai a phenderfynodd y Gweithgor y dylid gwneud hynny drwy'r fforymau ardal.

7. Yn ei gyfarfod nesaf bydd y Gweithgor yn rhoi sylw i'r rhannau o'r Cyfansoddiad sy'n ymdrin â hawliau a gweithrediad y Cyngor Llawn ynghyd â'r rheolau ar hawliau aelodau i gael mynediad at wybodaeth. I'w gynorthwyo yn ei drafodaethau, dymuna'r Gweithgor gymryd barn aelodau'r Pwyllgor hwn ar y materion canlynol.

**Materion i'w hystyried**

8. Mae deddfwriaeth bellach yn caniatáu gwahanu rôl ddinesig y Cadeirydd oddi wrth y gwaith o lywyddu yng nghyfarfodydd y Cyngor trwy greu dwy swydd - Cadeirydd Dinesig ac Aelod Llywyddol. Mae'r ddwy swydd yn gymwys i dderbyn uwch gyflog ond bydd y ddwy yn cyfrif at y cwota. Beth yw barn y Pwyllgor am gynnwys y ddarpariaeth yma yn y Cyfansoddiad?

9. Mae'r rheolau gweithdrefn newydd yn cynnwys cymal sy'n gosod terfyn amser ar gyfarfodydd o'r Cyngor Llawn e.e. 3 awr. Ydi'r Pwyllgor yn ystyried y byddai hyn yn fuddiol?

10. Mae deddfwriaeth yn caniatáu i aelodau ymuno hefo pwyllgorau dros y we ("presenoldeb o bell") ac mae angen rheol gweithdrefn i ddygymod a hyn. Ydi'r Pwyllgor yn cytuno y dylid cyfyngu'r gallu i ymuno o bell i rai pwyllgorau yn unig ac y dylid nodi na fydd diffyg yn y dechnoleg yn annilysu pleidlais ar unrhyw fater?

11. Mae'r rheolau gweithdrefn newydd yn gofyn am i gynnig i ddiswyddo Arweinydd y Cyngor gael ei arwyddo gan 15% o'r Cyngor gan gynnwys aelodau o leiaf dau grŵp gwleidyddol, ac y byddai angen dwy ran o dair o fwyafrif i gynnig o'r fath gario. Beth ydi barn y Pwyllgor am hyn?

12. Gofynnir am farn y Pwyllgor ar y trefniant newydd o gael Aelod Cabinet yn cyflwyno adroddiad o flaen y Cyngor ac ateb cwestiynau arno (e.e. adroddiad y gyllideb).

13. Mae’r rheolau newydd yn caniatáu cwestiynau gan aelodau o’r cyhoedd mewn cyfarfodydd o’r Cyngor Llawn, o fewn amodau caeth megis bod y cwestiwn i’w gyflwyno ymlaen llaw, bod cyfyngiad amser a bod cyfyngiad ar gwmpas y cwestiynau y gellir eu gofyn. Ydi’r Pwyllgor yn gefnogol i drefn o’r fath?

14. Mae’r rheolau gweithdrefn newydd yn cynnig rheol sy’n caniatáu ffilmio a defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn cyfarfodydd o’r Cyngor a’i bwyllgorau. Beth ydi barn y Pwyllgor ar hyn?

15. Mae deddfwriaeth bellach yn caniatáu i aelod fod yn absennol am resymau teuluol h.y. absenoldeb mamolaeth neu i warchod plant ifanc. Yn ymarferol mae hyn yn golygu na fydd cyfnodau o absenoldeb teulu yn cyfrif at y 6 mis o absenoldeb sy'n arwain at i aelod golli ei sedd, bod y cyflog yn parhau yn daladwy a bod angen caniatad i'r aelod ymgymryd ag unrhyw ddyletswydd yn ystod yr absenoldeb teulu. Bydd angen rheol gweithdrefn i ymdrin â’r sefyllfa. Oes gan y Pwyllgor unrhyw farn ar gynnwys rheol o’r fath?

16. Mae’r rheolau mynediad at wybodaeth yn gofyn am un blaenraglen waith ar gyfer y Cabinet, y Pwyllgorau Craffu a’r Cyngor. Oes gan y Pwyllgor sylw ar beth fyddai gwerth blaenraglen o’r fath a sut ddylid ei chreu?

17. Nid oes newidiadau yn cael eu cynnig i’r drefn ar gyfer penderfyniadau aelodau unigol o’r Cabinet – trefn sy’n golygu ymgynghori gydag aelodau lleol ar y bwriad, cynhyrchu adroddiad neu daflen penderfyniad ddrafft, rhoi cyfnod o dridiau i ymgynghori hefo cadeiryddion y pwyllgorau craffu ac yna cyhoeddi’r penderfyniad ar y we. Oes gan y Pwyllgor sylw ar addasrwydd y trefniadau yma?

18. Mae gan aelodau’r Cyngor hawliau mynediad at wybodaeth sy’n ychwanegol at hawliau’r cyhoedd. Mae’r trefniadau yn cynnwys trefn apêl sy’n golygu fod aelod sy’n anfodlon hefo gwrthodiad unrhyw adran i ryddhau gwybodaeth yn gallu gofyn i’r Swyddog Monitro ddyfarnu ar y mater ac os yw’n parhau’n anfodlon, cyfeirio’r mater i’r Cabinet am benderfyniad. Ydi’r Pwyllgor o’r farn fod y trefniadau yma’n parhau’n addas?

**Argymhelliad**

19. Gofynnir i’r Pwyllgor gyflwyno barn ar y materion a drafodir ym mharagraffau 8 - 18 uchod ynghyd ag unrhyw fater arall y dymunant ei gyfleu i’r Gweithgor sy’n adolygu’r Cyfansoddiad.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **18 Mawrth, 2014** |
| **PWNC** | **Gwe Ddarlledu** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y datblygiadau gwe-ddarlledu** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

**CEFNDIR**

1. Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor, cyflwynwyd diweddariad ar y trafodaethau am gyflwyno gwe-ddarlledu i'r Cyngor. Penderfyniad y pwyllgor oedd " parhau i gefnogi'r bwriad i gyflwyno'r drefn o we- ddarlledu ar yr amod bod y gyllideb yn caniatau, gan ofyn am adroddiad yn ol i'r cyfarfod nesaf ar raglen waith manwl ar gyfer ei gyflwyno."

2. Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno rhaglen waith arfaethedig ar gyfer cyflwyno'r drefn a hefyd adrodd ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran y trefniadau ariannu.

**Y RHAGLEN WAITH**

3. Dyma'r rhaglen waith arfaethedig ar gyfer cyflwyno'r gyfundrefn:-

| **DYDDIAD** | **GWEITHGAREDD** |
|---|---|
| Diwedd Mawrth 2014 | Derbyn tendrau terfynol ar gyfer cynigion i ddarparu gwasanaeth gwe-ddarlledu i'r Cyngor |
| Diwedd Ebrill, 2014 | Dyfarnu cytundeb dwy flynedd i'r cwmni llwyddiannus |
| Mai i Medi 2014 | Cyfnod o dreialu i gynnwys:-<br>• Arddangosiad o'r drefn i aelodau'r pwyllgor ac aelodau eraill<br>• Sesiynau hyfforddi i aelodau a swyddogion ar y gyfundrefn<br>• Recordio cyfarfodydd heb eu darlledu eto er mwyn ei brofi |
| Medi i Rhagfyr 2014 | Darlledu cyfarfodydd y Cyngor llawn a'r Pwyllgor Cynllunio (pan y cynhelir y cyfarfod hwnnw yng Nghaernarfon) |
| Ionawr 2015 ymlaen | Gweithredu trefn llawn o ddarlledu'r cyfarfodydd a ganlyn yn rheolaidd:-<br>• Cyngor llawn<br>• Pwyllgor Cynllunio (pan y cynhelir y cyfarfod hwnnw yng Nghaernarfon)<br>Adolygu rhaglenni gwaith y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu i ddefnyddio'r gweddill o oriau gwe-ddarlledu'r Cyngor<br>Ystyried hefyd a oes materion penodol y mae'r Cyngor am eu gwe-ddarlledu – ee negeseuon ar faterion o bwys |
| Medi 2015 | Cychwyn proses o adolygu'r defnydd o'r gwasanaeth er mwyn dechrau asesu ei barhad ar derfyn y cytundeb presennol |

DS Dylid nodi, yn ystod y cyfnod hyn, ein bod yn mynd i ddechrau cynnig y cyfle i aelodau fynychu rhai cyfarfodydd pwyllgor “o bell” trwy gyswllt fideo rhwng cyfarfodydd yn Siambr Dafydd Orwig a Siambr Hywel Dda  a swyddfeydd Dolgellau a Phwllheli

**CYLLIDO’R DATBLYGIAD**

4. Mae Grant Llywodraeth Cymru yn debygol o fod yn ddigonol ar gyfer dwy flynedd y cytundeb ond rydym hefyd wedi adnabod cyllideb y gellir ei ddefnyddio ar gyfer parhau gyda’r gwasanaeth os y penderfynnir ei fod yn cynnig gwerth am arian ar ôl ei adolygu

**YMATEB**

5. Gwahoddir ymateb y Pwyllgor i’r cynigion o ran y rhaglen waith a hefyd y trefniadau ariannu.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **DYDDIAD** | 18 Mawrth 2014 |
| **PWNC** | Gwefannau i Gynghorau Tref a Chymuned |
| **PWRPAS** | Cyflwyno diweddariad o’r cynllun i gefnogi cynghorau tref a chymuned i ddatblygu gwefannau |
| **AWDUR** | Geraint George,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

## 1. CEFNDIR

1.1 Yn 2013/14, bu i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllid i alluogi Awdurdodau Lleol i ddarparu grant o £500 yr un i Gynghorau Tref a Chymuned i sefydlu gwefan.

1.2 Pwrpas y grant hwn oedd cynorthwyo Cynghorau Tref a Chymuned i baratoi ar gyfer Mesur Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru), sydd yn cynnwys darpariaeth sydd yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau tref a chymuned i gyhoeddi gwybodaeth ar wefan; bwriad y grant hwn yw eu cynorthwyo i gwrdd â’r gofyn hwn.

1.3 Er mwyn cyflawni hynny, bu i Gyngor Gwynedd arwyddo cytundeb grant gyda Llywodraeth Cymru. Roedd y grant hwn yn cynnwys £32,000 ar gyfer dyrannu grant o hyd at £500 yr un i Gynghorau Tref a Chymuned i sefydlu gwefan.

## 2. DIWEDDARIAD O’R AMSERLEN A’R SEFYLLFA ARIANNU

2.1 Ar 5 Chwefror 2014, derbyniwyd gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau fod Lesley Griffith AC, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth wedi cytuno i ganiatáu i unrhyw gyllid a dderbyniwyd ar gyfer gwe ddarlledu cyfarfodydd cyngor, mynychu o bell, a gwefannau cynghorau cymuned i’w cario drosodd i’r flwyddyn ariannol 2014/15.

2.2 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod fod cynnydd i ddatblygu gwefannau mewn rhai cynghorau cymuned wedi bod yn araf. Felly drwy ganiatáu i’r cyllid gario drosodd, rhydd hyn gyfle i gynnig mwy o hyblygrwydd i’w galluogi i baratoi’n well ar gyfer y gofyn fydd arnynt i gael gwefan unwaith y bydd rhannau priodol o Fesur Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 wedi did i rym, fel y bwriedir yn 2015.

## 3. DIWEDDARIAD AR Y GRANT YNG NGWYNEDD

3.1 Ym mis Gorffennaf, rhoddwyd cynnig i’r Cynghorau Tref a Chymuned i ddatgan diddordeb mewn derbyn grant o hyd at £500.00 i ddatblygu

gwefan. Gan fod y swm ar gael yn gymharol isel, penderfynwyd cynnig dau opsiwn, sef:

a) Opsiwn 1
Cyngor i sefydlu gwefan unigol, gan ymrwymo i gynnal y wefan am isafswm o dair blynedd.
b) Opsiwn 2
Cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned eraill yn y sir i sefydlu gwefan ar y cyd fyddai'n cynnwys adran i bob Cyngor unigol, gan ymrwymo ar y cyd i gynnal y wefan am isafswm o dair blynedd.

**Opsiwn 1**

3.2 Penderfynwyd y byddai Cist Gwynedd yn gweinyddu'r broses grant ar gyfer datblygu gwefan i Gynghorau Tref a Chymuned yng Ngwynedd.

3.3 Ym Medi 2013, derbyniwyd eglurder pellach gan Lywodraeth Cymru y byddai modd i Gynghorau Tref a Chymuned ddefnyddio'r grant ar gyfer y pwrpasau canlynol:

a) creu gwefan newydd
b) datblygu gwefan sydd eisoes yn bodoli.

3.4 Yn Tachwedd 2013, anfonwyd ffurflenni cais gan Cist Gwynedd i'r Cynghorau Tref a Chymuned ddaru ddatgan diddordeb yn Opsiwn 1; 26 o Gynghorau Tref a Chymuned i gyd; - gyda dyddiad cau'r broses ymgeisio ar 10 Ionawr 2014.

3.5 Hyd yma, derbyniwyd 16 o geisiadau gan Gynghorau Tref a Chymuned, ac o'r ceisiadau yma, rhagwelir y bydd y mwyafrif ohonynt wedi cyflawni'r gofyn o gael gwefan erbyn diwedd mis Gorffennaf 2014.

**Opsiwn 2**

3.6 Uned TG, Adran Gofal Cwsmer y Cyngor sydd yn arwain ar Opsiwn 2 ar y cyd gyda'r Uned Gwasanaethau Democrataidd.

3.7 Bwriad yr Uned TG yw llunio briff a gwahodd darparwyr i gyflwyno ceisiadau mewn ymateb i'r briff erbyn canol mis Ebrill 2014, gan bennu'r cais llwyddiannus erbyn dechrau mis Mai 2014.

3.8 Disgwylir i'r darparwr llwyddiannus gydweithio gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned i sefydlu gwefan ar y cyd gan gynnull cyfarfod gyda hwy ar ddyddiad i'w bennu ym mis Mehefin 2014.

3.9 Mae gohebiaeth wedi ei anfon at y Cynghorau Tref a Chymuned yn eu hysbysu o'r bwriad a'r amserlen uchod ar gyfer Opsiwn 2.

## 4 ARGYMHELLIAD

4.1 Argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn:-

a) parhau i gefnogi'r gwaith o hwyluso datblygiad sefydlu gwefannau i Gynghorau Tref a Chymuned yn ystod 2014/15.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **18 Mawrth, 2014** |
| **PWNC** | **Ymgysylltu efo Aelodau** |
| **PWRPAS** | **Adrodd ar drafodaethau diweddar a chynigion cychwynol ar wella ymgysylltu gydag aelodau** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

**CEFNDIR**

1. Mae gwella trefniadau cyfathrebu ac ymgysylltu gydag aelodau wedi ei adnabod fel pwnc sydd angen sylw ers peth amser gan y pwyllgor hwn ac mewn fforymau eraill.

2. Yn unol ag addewid a roddwyd yn y pwyllgor hwn, cynhaliwyd ymgynghoriad gydag aelodau ynglyn â threfniadau ymgysylltu'r Cyngor yn gyffredinol (sydd yn fater i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol) ond hefyd am y cyswllt efo cynghorwyr fel rhan o'r darlun llawnach hynny (sydd yn fater i'r pwyllgor hwn).

3. Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad fymryn yn siomedig o ran niferoedd ond y prif negeseuon a ddaeth allan o'r ymgynghoriad hwnnw oedd:-

- Barn aelodau am y ffordd y mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'r cyhoedd ac aelodau – 6 allan o 10
- Cydweithio da ar y cyfan gydag aelodau ond nid yw hynny'n gyson ar draws
- Methiant i ddefnyddio gwybodaeth leol cynghorwyr yn effeithiol
- Mae gwir angen gwella a gwneud defnydd iawn o gynghorwyr wrth i'r deialog gyda'r cyhoedd fynd yn anoddach dros y blynyddoedd nesaf

4. Yn ogystal cynhaliwyd dau weithdy gydag aelodau (ym Mhorthmadog a Bethel) i wyntyllu'r materion yn llawnach. Yn y gweithdai hynny, cynigiwyd sawl awgrym i wella'r trefniadau.

5. Mae'r gweddill o'r adroddiad yn cyfarch y prif faterion gwahanol sydd angen sylw a'n cynigion cychwynnol am ymateb i'r angen hynny.

**TREFNIADAU GWYBODAETH A CHYFATHREBU**

6. Mae gwerthfawrogiad o Rhaeadr fel cyfrwng i rhannu gwybodaeth ond mae barn y byddai cyfundrefn symlach fel bwletin y Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn well – Bwriedir adolygu fformat Rhaeadr gyda golwg ar hynny

7. Mae'n **rhaid** gwella trefniadau adrannau am gysylltu ag aelodau lleol pan fo materion yn digwydd neu ar y gweill yn eu hetholaethau – Bwriedir trafod gyda Phenaethiaid yr

adrannau beth yw’r rhwystrau i wneud hynny er mwyn sefydlu trefniadau newydd os oes angen neu wella’r hyn sydd yn ei le.

8. Byddai anfon pob datganiad i’r wasg er gwybodaeth i bob cynghorydd o gymorth o ran lledaenu gwybodaeth – byddai dosbarthu drwy’r llechi yn ddi-gost – Bwriedir dosbarthu cyswllt i bob datganiad i’r wasg rhagweithiol gan ddechrau hynny yn syth

**Y CYNGHORYDD YN GANOLOG**

9. Mae gan gynghorwyr rôl bwysig i bontio rhwng y Cyngor a thrigolion Gwynedd, gan allu derbyn a rhannu gwybodaeth gyda’u hetholwyr ar ran y Cyngor, ynghyd a throsglwyddo negeseuon yn ôl gan eu hetholwyr er ystyriaeth gan y Cyngor.

10. Er mwyn galluogi cynghorwyr i weithredu’r rôl yma’n llwyddiannus, mae angen sefydlu cyd-ddealltwriaeth ymysg swyddogion a chynghorwyr o’r rôl, a manteision gweithredu’r rôl i’r cynghorydd a’r Cyngor. Fel cam cyntaf, bwriedir cynnal trafodaeth gyda Grŵp Rheoli’r Cyngor ar sail prif negeseuon y 2 weithdy a gynhaliwyd, ac yn dilyn hynny, ystyrir y posibilrwydd o gynnull cynghorwyr a swyddogion ynghyd i drafod ymhellach a chyd-gynllunio unrhyw gamau nesaf.

**Y FFORYMAU ARDAL**

11. Yng nghyfarfod llawn y Cyngor ar 28 Chwefror, 2014, penderfynwyd symud i drefn Fforymau Ardal ar ôl y Cyngor Blynyddol ar 2 Mai, 2013. Fodd bynnag, nodwyd yn y drafodaeth bod angen i’r mater gael ei adolygu eto ymhen blwyddyn.

12. Erbyn diwedd y flwyddyn , bydd y pedwar Fforwm Ardal bellach wedi cyfarfod ar 5 achlysur ers hynny gydag un o’r cyfarfodydd hynny yn un arbennig ar gyfer trafod cynnwys arfaethedig y Cynllun Strategol ar gyfer 2014/15 a hefyd rhannu gwybodaeth ar ail-gylchu a chompostio.

13. Mae’n deg dweud bod y profiad o weithredu yn y pedair ardal wedi bod yn wahanol gyda rhaglenni gwahanol yn y bedair ardal a lefelau presenoldeb amrywiol hefyd.

14. Bydd trafodaeth yng nghyfarfodydd nesaf y Fforymau Ardal unigol i gywain barn yr aelodau am ddyfodol y fforymau nawr bod y flwyddyn gyntaf yn dirwyn i ben. Yn ogystal, bwriedir defnyddio Rhaeadr i geisio barn aelodau i gyd ar y mater er mwyn cael barn aelodau sydd heb fod yn mynychu cyfarfodydd y fforymau.

**ARGYMHELLIAD**

15. Gwahoddir barn y Pwyllgor ar y bwriadau uchod.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **DYDDIAD:** | Mawrth 18fed, 2014 |
| **TEITL:** | Hygyrchedd Pencadlys y Cyngor |
| **AWDUR:** | Dafydd Gibbard – Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol |
| **ARGYMHELLIAD:** | Mabwysiadu rhaglen o welliannau pellach i wella hygyrchedd Pencadlys y Cyngor. |

## 1.0 <u>CEFNDIR</u>

1.1 Ers sawl blwyddyn mae'r Cyngor wedi bod yn buddsoddi yn ei adeiladau i wella hygyrchedd ac i geisio cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

1.2 Eisoes mae ein prif adeiladau cyhoeddus wedi gweld gwelliannau megis drysau awtomatig, toliedau hygyrch ayb

1.3 Yn ddiweddar buddsoddwyd yn sylweddol i greu Siop un Stop newydd sydd nid yn unig yn cynnig darpariaeth gwell yn gyffredinol i'n cwsmeriaid ond mae hefyd yn rhan greiddiol o'n strategaeth hygyrchedd ar gyfer ymwelwyr. Mae'n cynnig mynedfa hygyrch, desg groeso bwrpasol, stafelloedd cyfweld hygyrch a thoiled hygyrch.

1.4 Fodd bynnag, roedd yn amlwg ers peth amser fod angen gwaith pellach i wella hygyrchedd ardaloedd eraill yn y prif swyddfeydd yng Nghaernarfon er budd staff, Aelodau a'r cyhoedd.

## 2.0 <u>SEFYLLFA GYFREDOL</u>

2.1 Comisiynwyd archwiliad manwl i bob agwedd o hygyrchedd yn y prif swyddfeydd gan ganolbwyntio'n bennaf ar yr holl ardaloedd fyddai ymwelwyr yn eu defnyddio h.y. Siop Un Stop, Siambr Dafydd Orwig, Siambr Hywel Dda, stafelloedd cyfarfod llawr cyntaf y Pencadlys a'r ddwy Lolfa Aelodau presennol.

2.2 Dewiswyd cwmni arbenigol i'n cynorthwyo gyda'r gwaith hwn. Mae Access All Areas yn gwmni sydd yn cynghori sefydliadau cyhoeddus a chwmnïau preifat ar hyd a lled y wlad ar sut i gydymffurfio gyda'r gofynion hygyrchedd statudol. Mae ganddynt brofiad helaeth yn y maes ac mae ganddynt brofiad personol o'r sialensiau hygyrchedd sy'n wynebu rhai ag anableddau.

2.3 Yn dilyn derbyn eu hadroddiad cynhwysfawr, ymgynghorwyd ar eu hargymhellion gyda'r Cyng Peter Read a derbyniwyd cyngor ac arweiniad ganddo ar rai o'r materion a nodwyd. Yn dilyn yr ymgynghoriad cytunwyd ar restr derfynol o welliannau fel a welir yn atodiad A.

2.4 Eisoes mae cyllideb wedi ei hadnabod yn y Cynllun Rheoli Asedau fydd yn ein galluogi i raglennu'r gwelliannau hyn dros gyfnod o ddwy flynedd.

2.5 Mae'r adroddiad hefyd wedi adnabod un maes sydd angen sylw penodol. Ar hyn o bryd mae dwy Lolfa Aelodau gerllaw Siambr Dafydd Orwig. Mae'r Lolfa ar y llawr cyntaf yn hygyrch gan fod lifft gerllaw. Nid yw'r Lolfa yn yr is-lawr yn hygyrch o gwbl. Byddai angen gwneud addasiadau sylweddol i alluogi mynediad hygyrch ati a byddai'r gost oddeutu £40,000.

2.6 Mae'r defnydd o'r ddwy Lolfa yn eithaf prin, yn enwedig y lolfa yn yr islawr. Yn y Lolfa yma y cedwir blychau post yr Aelodau ac mae darpariaeth te a choffi gwell ynddi.

2.7 Oherwydd nad oes mynediad hygyrch at y cyfleusterau hyn, mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw Aelod sydd gydag anableddau.
2.8 Gellid datrys hyn un ai drwy geisio am ffynhonnell i ariannu'r addasiadau ar gost o £40,000 neu drwy ddynodi'r Lolfa ar y llawr cyntaf fel y brif stafell Aelodau ac felly ail leoli'r blychau post yno a gwella'r ddarpariaeth te/coffi.
2.9 Gan fod y Lolfa yma yn stafell llawer mwy pleserus na'r stafell yn yr is-lawr, mae'n ymddangos y byddai'r newid hwn yn well defnydd o adnoddau na cheisio am arian cyfalaf i wneud yr ddasiadau.
2.10 Ni fyddai hyn yn golygu fod yr ystafell yn yr is-lawr yn cael ei cholli. Byddai'n parhau i fod ar gael at ddefnydd yr Aelodau. Ar ddyddiau lle nad oes pwyllgor mae'r gofod yma'n cael ei ddefnyddio'n achlysurol gan staff ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol. Mae'n debyg fod cyfle i geisio ffurfioli hyn os fydd yr Aelodau yn gwneud mwy o ddefnydd o'r lolfa ar y llawr cyntaf ar ei newydd wedd. Ni fyddai hyn yn bosib ar ddyddiau pwyllgor wrth gwrs.

## 3.0 **CASGLIADAU**

3.1 Mae gan y Cyngor fel corff cyhoeddus ddyletswydd statudol a moesol i sicrhau ein bod yn ceisio gwneud ein adeiladau mor hygyrch ag y bod modd ac nad ydym yn gwahaniaethu ar sail anabledd.
3.2 Mae'r Cyngor wedi cydnabod ei gyfrifoldeb yn y maes yma dros y blynyddoedd drwy fuddsoddi yn ein prif adeiladau.
3.3 O fabwysiadu'r rhaglen o welliannau ac addasiadau a welir yn Atodiad A bydd y Cyngor yn gallu bod yn ffyddiog fod y Pencadlys yn hygyrch i ymwelwyr ac Aelodau.
3.4 Drwy ail ddynodi'r Lolfa Aelodau ar y llawr cyntaf fel y brif Lolfa byddwn hefyd yn sicrhau fod mynediad hygyrch at y cyfleusterau y dylem fod yn ei ddarparu ar gyfer pob Aelod ac nad ydym yn gwahaniaethu ar sail anabledd.

## **4.0 ARGYMHELLION**

4.1 Fod y Cyngor yn mabwysiadu'r rhaglen o argymhellion a welir yn Atodiad A er mwyn sicrhau fod ein Pencadlys yn hygyrch i ymwelwyr.

4.2 Fod y Cyngor yn ail –ddynodi'r Lolfa ar y llawr cyntaf fel y brif Lolfa Aelodau gan sicrhau fod mynediad hygyrch i bob Aelod at y ddarpariaeth yma.

| **ATODIAD A** | | | **APPENDIX A** | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhan o'r adeilad** | **Argymhelliad** | 1 | **Part of building** | **Recommendation** |
| Tu allan i'r adeilad | Blaen pob gris i fod yn llachar | 2 | Building approach | All step nosings to be highlighted |
| | Canllawiau lle mae dwy neu fwy o risiau | 3 | | Handrails should be included on all steps of two or more risers |
| Parcio Anabl | Creu o leiaf dri man parcio sy’n cydymffurfio’n llwyr ac sydd mor wastad â phosibl. | 4 | Disabled Parking | create a minimum of three fully compliant disabled bays in areas that are as level as possible. |
| Mynedfeydd Adeiladau | Arwyddion allanfa uwchben y drysau allan diwethaf | 5 | Building Entrances | Exit signage is located above final exit doors |
| Coridorau a Llwybrau | Arwyddion gwell ar allanfeydd | 6 | Corridors and Passageways | Improve exit signage |
| Adnoddau Toiledau Anabl | Sicrhau fod y cortyn argyfwng o fewn cyrraedd wrth eistedd ar y toiled ac o’r llawr | 7 | Disabled WC Facilities | Ensuring that the emergency pull cord is reachable from both the WC seated position and floor area |
| Mynedfa Adeilad Siambr y Cyngor | Golau cryfach neu sicrhau fod y golau presennol ymlaen yn ystod oriau swyddfa. | 8 | Council Chambers Building Entrance | Increase lighting or ensure that current lighting is switched on during office hours |
| | Mae’r mat tywydd allanol o ddeunydd cnau goco, ystyried newid am fatiau eraill craidd isel ond dim ond wrth adnewyddu | 9 | | External weather matting is of a coconut material, consider replacing with alternative low core matting only if renewing. |
| Llawr Gwaelod Siambr y Cyngor | Gosod rheiliau llaw o boptu’r grisiau at y man uwch lle mae’r cyhoedd yn eistedd | 10 | Ground Floor Council Chambers | Placing handrails offering support on steps either side of the raised public seating area |
| | Gosod breichiau ar y seddau i helpu'r rhai sy'n cael trafferth i godi. Sicrhau fod yna gymysgedd o seddau yn cynnig y cymorth hwn. | 11 | | Seating is accompanied with arms to assist those that may have difficulty rising. Ensure that a mixture of chairs offer this support |
| | Ymchwilio i ddarparu lle i gadeiriau olwyn i'r cyhoedd ar lefel hygyrch, gallai hyn fod yn rhywle ar y lefel hon ond, o ddewis, mor agos â phosibl at fan gwastad wrth ddod i mewn a gadael. Creu o leiaf ddau le gyda seddi arferol ar gyfer gofalwyr os bydd angen | 12 | | Investigate providing wheelchair space for public members on the accessible level, these can be located anywhere on this level but preferably nearest to a level entry/exit point. Create a minimum of two spaces with standard seating nearby for carers if needed. |
| | Ymchwilio i’r posibilrwydd o osod ramp yn lle'r ddwy ris sy'n arwain i lawr at lefel isaf y siambr. Byddai hyn yn agor lefel ychwanegol cyfan at ddefnydd rhai mewn cadair pe bai angen. | 13 | | Investigate replacing the two steps which currently lead down to th elowest level of the chamber with a ramp. This would open up an additional whole level for wheelchair users. |
| Grisiau | Gosod arwyddion cyfeirio clir ar bob gris yn arwain at yr allanfeydd terfynol. | 14 | Steps and Stairs | Install clear directional signage on all stairs leading to final exit points |
| Adnoddau Toiledau Anabl | Canfuwyd fod y canllawiau braidd yn uchel i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ac nad oedd fawr o le i allu gafael. Ystyried newd y canllaw ochr chwith ar i lawr am un hirgrwn neu grwn a ddim uwch na 750mm o’r llawr. Ni fyddai’n rhesymol gosod canllaw newydd ar yr ochr dde. | 15 | Disabled WC Facilities | The handrail supports were found to be high for wheelchair use and offered little area of grip. Consider replacing the left hand descending handrail with a compliant oval or round design and at a height of no greater than 750mm from the floor. It would not be seen as reasonable to replace the existing right hand side descending rail. |
| Coridorau a Llwybrau llawr cyntaf bloc J | Gosod canllaw, hirgrwn neu grwn, ar yr ochr chwith wrth fynd i lawr ar uchder o 750mm i helpu defnyddwyr cadeiriau olwyn a’r rhai sy'n cael trafferth cerdded. | 16 | Corridors and Passageways - 1st floor Bloc J | Install a handrail to the left side descending at a height of 750mm and of a round or oval design to offer assistance to wheelchair users and those unsteady on their feet. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Lolfa'r Aelodau | Ymchwilio i'r posibilrwydd o osod un ai lifft llwyfan neu lift fertigol i gadeiriau olwyn gyda chymorth cwmni lifftiau cymwys y Ddeddf Cydraddoldeb. Byddai ail ddynodi'r Lolfa Aelodau ar y llawr cyntaf yn brif lolfa hefyd yn opsiwn. | 17 | Members Lounge | Investigate the viability of installing either a wheelchair platform lift or a vertical wheelchair lift with the assistance of a competent Equality Act compliant lifting company. Sdesginating the Lounge on the first floor would also be an option. |
| Diangfeydd | Cynllun cyfeillio, byddai'n ddoeth profi adeg ymarferion tân pa mor effeithiol yw system fel hyn. | 18 | Means of Escape | Buddy system, the effectiveness of this system would be advised to be tested within regular fire drills. |
| Coridor llawr cyntaf bloc B | Edrych i ledu agoriad rhai o'r drysau dwbl yn y coridor. | 19 | First floor coridor, bloc B | Look at widening the opening of some the double doors in the corridor |